

GWEITHGAREDDAU I YSGOLION 2026

Mae tywydd Gogledd Cymru wrth ei fodd yn ein cadw ni ar flaenau ein traed, a dyma pam na fyddwch chi'n derbyn rhaglen yn awtomatig cyn eich ymweliad. Yr hyn y gallwn ni ei addo yw rhaglen gyffrous ac amrywiol. Bydd y plant yn mynd adref gyda phrofiadau bythgofiadwy, ymdeimlad o gyflawni, ac atgofion am oes ar ôl manteisio ar bopeth sydd ar gael.

Datgysylltu Digidol - Mae ymchwil yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod mewn amser sgrin dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn gysylltiedig â lefelau straen uwch, cwsg salach, llai o allu i ganolbwyntio; ac mae'r cyfan yn effeithio ar ein lles meddyliol a chorfforol ni, ac felly perfformiad yn yr ysgol.

Gall cymryd seibiant o sgriniau helpu i wella cwsg, lleihau straen a gorbryder, cryfhau perthnasoedd a lleihau dibyniaeth ar sgriniau. Ar draws ein holl weithgareddau; ar y tir, ar y dŵr ac yn y ganolfan, rydym yn canolbwyntio ar brofir gweithgaredd ei hun, dysgu sgiliau newydd a mwynhau bod gyda ffrindiau.

ISOD MAE RHESTR OR HYN Y GALLECH CHI EI BROFI YN YSTOD EICH YMWELIAD Â PHLAS MENAI -

Gweithgareddau ar y Tir:

- Rhaffau Uchel
- Rhaffau Isel
- Crwydro Ogofâu (system ogofâu artiffisial uwchben y ddaear)
- Wal ddringo (dan do)
- Wal ddringo (y tu allan)
- Abseilu
- Llwybrau beicio MTB ar y safle
- Llwybr beicio MTB oddi ar y safle
- Saethyddiaeth draddodiadol
- Adeiladu den
- Tân gwersylla
- Cyfeiriannu (ar y safle)

Gweithgareddau ar y Dŵr:

- Hwyllo
- Gwyntsyrrffio
- Padlfyrddio (Sengl neu Jymbo)
- Caiacio
- Canŵio rafft
- Adeiladu rafft
- Archwilio'r Fenai ar fwrdd ein cwch pysgota dibynadwy Angharad.

Gweithgareddau Gydar Nos ar gyfer Ymweliadau Preswyl

- Cyfeiriannu (ar y safle) - sesiwn fyrrach
- Llinell Nos - ymarfer amddifadedd synhwyraidd
- Saethyddiaeth (Blaen Sugnydd)
- Gemau tîm
- Gollwng wyau
- Her pont
- Her catapwlt
- Her Duplo (Blwyddyn 6 a hŷn)
- Cwis Plas Menai / Helfa Sborion
- Llwybr y Ddraig
- Gall rhai o'r gweithgareddau yma fod yn rhai hunan-arwain. Os ywn well gennych chi eu harwain eich hun, rhowch wybod i ni.



Gweithgareddau DIWRNOD LLAWN Premiwm ar y Tir ar Dŵr

- Mae tâl ychwanegol am y gweithgareddau hyn os hoffech chi eu cynnwys yn eich rhaglen.
- Arfordiro
- Hwyllo Catamaran
- Hwyllo J80 / Cychod Cîl - cwch cîl rasio a llong fwy na dingi.
- Cerdded Ceunentydd
- Dringo Creigiau (yn yr awyr agored oddi ar y safle)
- Archwilio Eryri - Dringo mynydd lleol e.e. Yr Wyddfa

Os oes gweithgaredd rydych chi wir eisiau ei wneud oddi ar ein rhestr premiwm ni ac yr hoffech ei gynnwys yn eich rhaglen, rhowch wybod i ni. Byddwn yn hapus i roi pris am hyn a gwneud iddo ddigwydd.

Os oes gweithgaredd yr hoffech beidio â'i gynnwys, rydym yn hapus i sicrhau hynny, ond byddem angen gwybod ymlaen llaw. Er mwyn sicrhau bod pethaun rhedeg yn esmwyth gydag amserlenni, cylchdroi a chymarebau, gall y newidiadau / eithriadau personol yma fod yn berthnasol i un gweithgaredd fesul ysgol.



TRIPIAU DATBLYGU CHWARAEON

Gyda lleoliad ysblennydd Afon Menai fel eu hystafell ddosbarth, maer tripiâu yma'n gyfle i ddisgyblion ganolbwyntio ar gamp benodol e.e. naill ai hwyllo, gwyntsyrrffio neu gaiacio gydar nod o ennill tystysgrif corff rheoli cenedlaethol. Drwy ganolbwyntio ar un gweithgaredd penodol, gall y disgyblion ddatblygu eu potensial a chael ymdeimlad gwirioneddol o gyflawni, wrth iddynt feistroli sgiliau newydd a meithrin hunan hyder.

TRIPIAU MAES

Yn gyfoethog o ran hanes daearyddol, daearegol a diwylliannol, mae Gogledd Cymru ac Ynys Môn wedi bod yn lleoliadau poblogaidd ar gyfer tripiâu maes ers tro byd. Mae pynciau cyffredin y tripiâu maes yn cynnwys y canlynol;

- Hanes a daearyddiaeth y chwareli llechi; Llanberis, Penrhyn a Blaenau Ffestiniog
- Prosesau a rheolaeth arfordirol; Twyni tywod ac amddiffynfeydd arfordirol
- Cynhyrchu ynni; Ynni Niwclear, Llanwol, Gwynt, Trydan Dŵr
- Tirweddau ac afonydd rhewlifol; Eryri
- Twristiaeth ac effaith yr amgylchedd naturiol: Astudiaeth Achos - Llwybr yr Arfordir

Gallwn gynnwys gweithgaredd hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn fel rhan och rhaglen trip maes – er enghraifft, trip maes yn y bore ac wedyn gweithgaredd



CYSYLLTU Â 4 PWRPAS Y GWRICWLWM I GYMRU

1. Dysgwyr uchelgeisiol, galluog: Mae'r pwrpas hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu dysgwyr syn barod i ddysgu drwy gydol eu bywyd. Maen pwysleisio hoffter o ddysgu a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ymgysylltu â gwybodaeth a heriau newydd drwy gydol eu bywyd.

- Rydym yn annog pob dysgwr i osod nodau iddynt eu hunain a mwynhau heriau.
- Mae ein gweithgareddau ni'n annog dysgwyr i gyfathrebu effeithiol, a chysylltu a defnyddio gwybodaeth mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

2. Cyfranwyr mentrus, creadigol: Nod y pwrpas hwn yw datblygu dysgwyr syn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Maen pwysleisio creadigrwydd, datrys problemau, ar gallu i addasu a chyfrannu at gymdeithas.

- Mae ein holl weithgareddau ni'n adeiladu gwybodaeth, yn cyflwyno problemau i wdatrys ac yn gofyn i ddysgwyr addasu eu dull i ddatblygu ymhellach.
- Mae natur grŵp / tîm gweithgareddau'n galluogi dysgwyr i rannu, cyfrannu, gwneud penderfyniadau, chwarae sawl rôl mewn timau a mynegi syniadau a datrysiadau.

3. Dinasyddion moesegol, gwybodus: Mae'r pwrpas hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu dysgwyr syn ymwybodol ou cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru ar byd. Maen annog meddwl yn feirniadol, gwneud penderfyniadau moesegol, ac ymgysylltu â materion byd-eang.


- Rydym yn falch o hwyluso gweithgareddau yn y Gymraeg ar Saesneg.
- Rydym hefyd yn ymfalchïo mewn dod â dysgu am y byd on cwmpas, yn enwedig y byd naturiol, yn rhan o weithgareddau awyr agored.
- Rydym o ddifrif am gynaliadwyedd ar effaith rydym yn ei chael ar eraill ar byd on cwmpas ac yn gweithio tuag at wneud y safle a'n gweithgareddau mor garbon niwtral â phosibl.

4. Unigolion iach, hyderus: Nod y diben hwn yw datblygu dysgwyr syn unigolion cyflawn gydag ymdeimlad cadarnhaol ou hunan. Maen pwysleisio lles, gwydnwch, ar gallu i fyw bywydau sy'n llawn boddhad.

- Yr awyr agored yw ein prif ystafell ddosbarth, gan ddefnyddio awyr iach fel cynhwysyn allweddol ar gyfer dysgu. Mae ein holl weithgareddau'n gofyn am symudiad corfforol ochr yn ochr â dysgu sgiliau.
- Rydym yn annog pob cyfranogwr i roi cynnig ar y gamp rydym yn ei chyflwyno ac wedyn parhau â hi.
- Datblygu hunanhyder a gwydnwch



10 RHESWM DROS DDEWIS PLAS MENAI



GWYBODAETH A RHESTR WIRIO I DREFNWYR



8 WYTHNOS CYN CYRRAEDD:

Byddwn yn anfon e-bost atoch chi i gadarnhau niferoedd terfynol eich disgyblion a'r staff, gan gynnwys a fydd y staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau.

Atebwch gydach niferoedd terfynol o fewn 10 diwrnod i dderbyn yr e-bost yma os gwelwch yn dda.

6 WYTHNOS CYN CYRRAEDD:

- Byddwn yn anfon eich Pecyn Ysgolion atoch chi. Mae hwn yn cynnwys ein dogfen Asesiad Risg Gweithgaredd, gwybodaeth am eich ymweliad, a dolenni at ffurflenni y bydd angen i chi eu dosbarthu au llenwi.
- Anfonwch y Ffurflen AOR / Ymwadiad Meddygol yn ddigidol at rieni / gwarcheidwaid neu roi copïau papur iddynt. Rhaid ir rhain gael eu cwblhau au llofnodi gan rieni / gwarcheidwaid cyn gadael am Blas Menai.
- Anfonwch y wybodaeth ar gyfer dogfen / rhestr cit i rieni at rieni / gwarcheidwaid. (Yn cael ei darparu gennym ni)
- Byddwn yn anfon eich anfoneb balans terfynol, yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion ar staff rydych chi wediu cadarnhau. Rhaid talu'r anfoneb cyn ich ymweliad ddechrau.
- Ydych chi wedi archebu eich cludiant ir ganolfan ac oddi yno?
- Gwiriwch eich amseroedd cyrraedd a gadael yn eich Pecyn Ysgolion.
- Rhannwch y wybodaeth am y Bws ar Bws Mini gydach darparwr cludiant.
- Mae hwn yn amser da i siarad gyda ni am unrhyw gefnogaeth / addasiadau penodol ar gyfer aelodau o'ch grŵp.

PYTHEFNOS CYN CYRRAEDD:

- Dychwelwch eich dogfen dewisiadau brechdanau atom ni, ar e-bost
- Dychwelwch eich rhestr llety / ystafelloedd atom ni, ar e-bost

CYN CYRRAEDD:

Casglwch ffurflenni caniatâd wediu llofnodi gan rieni / gwarcheidwaid a dod â nhw gyda chi ir ganolfan. Llenwch y Ffurflen Gwybodaeth Argyfwng a dod â hi gyda chi ir ganolfan.

